

Wedi'i anfon i [EqualityBranch@gov.wales](mailto:EqualityBranch@gov.wales) ar gyfer adolygiad cychwynnol ar 21 Mehefin 2022.

### Nodau Polisi ac Effeithiau Bwriadedig

Gall plastig, pan fydd wedi'i ddylunio'n dda ac yn angenrheidiol, chwarae rhan bwysig yn ein heconomi a'n bywydau bob dydd. Fodd bynnag, mae ei ddefnydd wedi dod mor eang, nid yw pobl yn aml yn gosod fawr ddim gwerth arno fel adnodd ac felly mae'n aml yn cael ei waredu ar ôl un defnydd, nid yw'n cael ei ailgylchu neu mae hyd yn oed yn cael ei daflu fel sbwriel. Mae hyn yn arbennig o wir am eitemau llai na ellir eu codi'n hawdd. Mae'r eitemau hyn yn aml yn mynd i'n hafonydd a'n moroedd ni, gan olchi ar ein traethau. Yn 2018, yn ôl ymchwil gan y [Comisiwn Ewropeaidd](#) mae 80 i 85% o sbwriel môr, wedi'i fesur yn ôl arolygon sbwriel traethau, yn blastig, gydag eitemau plastig untro yn cynrychioli 50% o gyfanswm y sbwriel môr.

Yn ôl yr ymchwil roedd y rhan fwyaf o'r sbwriel a daflwyd ar draethau Ewrop yn rhai oedd yn gysylltiedig â phecynnu bwyd a diod "i fynd". Gan fod plastig yn gallu dadelfennu yn ddarnau llai dros amser, mae'n gallu ei gwneud hi'n anodd adnabod ei darddiad. Mae astudiaethau yng Nghymru yn awgrymu bod sbwriel plastig untro yn gyffredin yn ein hamgylchedd lleol hefyd. Er enghraifft, canfu [dadansoddiad cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru](#) o sbwriel o hyd i blastig mewn 40% (yn ôl nifer yr eitemau) o gyfanswm y sampl a ddadansoddiwyd. Cadarnhaodd [arolygon glendid traeth](#) a [strydoedd Cymru](#) bresenoldeb nifer o'r eitemau ddaeth i'r amlwg yng ngwaith ymchwil y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae mynd i'r afael â llygredd plastig a'r effaith negyddol y mae'n ei chael ar ein hinsawdd, ein hamgylchedd, ein natur, ein hiechyd a'n lles yn flaenoriaeth allweddol i Weinidogion Cymru. Rydym am i Gymru ddod yn genedl lle mae effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o'n diwylliant, lle rydym yn cydnabod gwerth ein hadnoddau ac yn lleihau faint o wastraff sy'n codi. Ein gweledigaeth yw Cymru ddi-sbwriel, lle rydym yn cadw adnoddau sy'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl ac yn osgoi gwastraff. Mae gan bawb rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â sbwriel a'r diwylliant untro.

Drwy'r Bil Plastig Untro, rydym yn cynnig ei gwneud yn drosedd cyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim) y cynhyrchion plastig untro (SUP) canlynol sy'n cael eu taflu ac sy'n ddiangen i ddefnyddiwr yng Nghymru. Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn helpu i symud ymddygiadau ymhlith manwerthwyr a defnyddwyr tuag at ddeunyddiau mwy ecogyfeillgar neu gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.

- platiau
- cytleri
- troyddion diodydd
- gwellt yfed (gan gynnwys gwellt sy'n sownd)
- cwpanau wedi eu gwneud o bolystyren
- cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren

- caeadau cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren
- ffyn cotwm wedi'u gwneud â phlastig
- ffyn balwnau
- cynhyrchion ocso-ddiraddadwy
- bagiau siopa plastig untro (SUCBs)

Mae cyflwyno cyfyngiadau'r farchnad ar argaeledd yr eitemau plastig defnydd untro diangen neu broblematic hyn yn rhan o becyn o fesurau ehangach sy'n cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru i leihau'r effaith negyddol y mae sbwriel, llygredd plastig a newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar ein hamgylchedd a'n hiechyd. Ein nod yw sbarduno newid diwylliannol lle mae gwastraff diangen yn cael ei atal, a bod deunyddiau yn cael eu hystyried yn adnoddau yn hytrach na gwastraff. Mae cyflwyno'r cyfyngiadau hyn yn gam allweddol cyntaf yn ein dull gweithredu fesul cam i symud oddi wrth ein diwylliant gwastraffus. Drwy dynnu'r cynhyrchion hyn o'r gadwyn gyflenwi, byddwn yn atal y llygredd hwn rhag digwydd yn y lle cyntaf. Bydd yn annog busnesau i symud tuag at wneud mwy o eitemau mae modd eu hailddefnyddio, haws eu hailgylchu a dewisiadau amgen llai niweidiol i'r amgylchedd.

Bydd y cynigion hefyd yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r niwed mae eitemau plastig untro yn ei achosi i'r amgylchedd.

Mae Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru, [Adfer ein Hiechyd](#), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 wedi amlygu bod newid yn yr hinsawdd yn fater iechyd cyhoeddus dybryd a fydd yn rhan gynyddol flaenllaw o'n bywydau wrth iddo effeithio'n andwyol ar y gofynion iechyd mwyaf sylfaenol: aer glân, dŵr diogel, digon o fwyd, a lloches ddigonol. Mae'n effeithio ar yr amgylchedd o'n cwmpas – mae'r llefydd rydyn ni'n byw, yn gweithio, yn dysgu ac yn chwarae ynddynt – yn gallu cael effaith ddofn ar ein hiechyd a'n lles.

Mae'r adroddiad yn edrych ar yr angen i baratoi, lliniaru ac addasu ar gyfer newid hinsawdd yng Nghymru. Mae pobl Cymru yn ganolog wrth wneud y newidiadau hyn drwy ddewis defnyddio eitemau amgen fel cytleri pren a gwellt, cwpanau a phlatiau papur. Bydd newid i'r eitemau amgen hyn a ddefnyddir yn eang, nad ydynt yn newid llawer o ran profiad i ddefnyddwyr, yn arwain at fanteision amgylcheddol tymor hir a gwell iechyd, er ein bod yn cydnabod y gallai fod aflonyddwch tymor byr i fanwerthwyr a defnyddwyr, os nad yw'r eitemau amgen addas i'r rhai y bwriedir eu dileu ar gael am gost fforddiadwy.

### **Pa effaith fydd y cynigion hyn yn ei chael ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ac sy'n eu rhannu fel y cânt eu disgrifio yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i sicrhau'r canlynol:

- **Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waharddwyd gan y Ddeddf;**
- **Mwy o gyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt, sy'n cynnwys rhoi sylw dyladwy, yn benodol, i'r angen i sicrhau'r canlynol:**

- Dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig;
- Cymerwch gamau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig sy'n wahanol i'r rhai nad ydynt. Mae'r camau sy'n ymwneud â diwallu anghenion pobl anabl sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn benodol, camau i ystyried eu namau;
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel;
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt, sy'n golygu rhoi sylw dyladwy, yn benodol, i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.

## Ymgynghoriad ar y cynigion

Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn 12 wythnos ym mis Gorffennaf 2020 yng nghyswllt ein cynigion i wahardd eitemau plastig untro penodol. Cynhaliwyd 6 wythnos o waith casglu tystiolaeth ac ymgysylltu ymhellach, wedi'i dargedu, gyda rhanddeiliaid yn 2022.

### Ymgynghoriad Lleihau Plastig Untro 2020

Roedd yr [Ymgynghoriad Lleihau Plastig Untro](#) yn cynnwys cynigion i wahardd cytleri SUP, platiau, troyddion diodydd, gwellt yfed, ffyn cotwm, ffyn balwnau, cwpanau polystyren wedi'u hehangu a'u hallwthio, cynwysyddion bwyd polystyren wedi'u hehangu a'u hallwthio a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 30 Gorffennaf 2020 a 22 Hydref 2020. Roedd dogfen ymgynghori ddwyieithog ar gael ar-lein, ynghyd â fersiwn "Hawdd ei Darllen". Roedd ymatebwyr yn cael y dewis i ymateb i gwestiynau ar-lein, cyflwyno ymatebion yn electronig i flwch post electronig dynodedig neu ar ffurf copi caled drwy'r system bost.

Gan fod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cenedlaethol oherwydd pandemig COVID-19, nid oedd modd cynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb. Yn hytrach, cynhaliwyd sawl cyfarfod ar-lein gyda gwahanol grwpiau, roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr y Senedd leuenctid, aelodau o gonsortwm Manwerthu Cymru, grŵp cymunedol etholaethol lleol a gweithdy ar-lein gydag academyddion ac arbenigwyr eraill dan ofal Platfform Amgylchedd Cymru.

### Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 3,581 o [ymatebion](#). Roedd hyn yn cynnwys ymatebion gan grwpiau o nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys pobl anabl a nifer o ymgyrchoedd wedi'u trefnu, gan gynnwys y rhai a gaiff eu cydlynu gan Sefydliadau Amgylcheddol Anllywodraethol (Cyrff Anllywodraethol), gwneuthurwyr / cynrychiolwyr o gynhyrchwyr, nifer o staff a chwsmeriaid Dŵr Cymru ac ymateb ar y cyd gan aelodau o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff.

Cafwyd cytundeb aruthrol drwy'r ymgynghoriad fod manteision amgylcheddol a chymdeithasol posibl ein cynigion yn drech na'r effeithiau posibl ar bobl yng Nghymru. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan nifer o bobl, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, o effaith anghymesur, negyddol bosibl y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau arfaethedig o ran SUP. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae rhai grwpiau hŷn ac anabl yn dibynnu ar wellt plastig hyblyg i fwyta ac yfed yn ddiogel neu'n annibynnol, mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Gallai rhai mathau o eitemau amgen, fel gwydr neu fetel, achosi anaf i rai unigolion sydd â chyflyrau sy'n achosi cryndod a sbasmau.
- Nid yw gwellt amgen un defnydd yn rhoi'r un hyblygrwydd/ymarferoldeb â gwellt plastig ac felly maent yn annhebygol o fod yn eitem amgen addas i bobl sy'n gaeth i'r gwely, pobl na allant ail-leoli eu hunain i yfed o gwpanau neu blygu eu pen yn ôl, y rhai sydd â phroblemau corfforol neu gyflyrau poenus.
- Mae'n bosibl y byddai unigolion sy'n dibynnu ar wellt i fwyta neu i yfed yn gorfod cael nifer o wellt bob dydd; felly gallai prynu gwellt wedi'u gwneud o ddeunyddiau eraill, sy'n ddrutach, olygu costau ychwanegol i'r defnyddiwr.
- Byddai gofyn glanhau/diheintio eitemau a werthir sy'n addas i'w hail-ddefnyddio rhwng pob defnydd gan greu anghyfleustra i'r defnyddiwr.

Sylwadau a ddaeth i law a oedd yn rhoi rhagor o fanylion am effaith bosib gwaharddiad ar wellt SUP:

*"Rwy'n falch o weld eich bod yn cydnabod y bydd gwahardd Gwellt Plastig Hyblyg Untro yn cael effaith andwyol ar Bobl Anabl. Dwi ddim yn teimlo eich bod chi wedi mynd yn ddigon pell i'n diogelu ni. Hyd yn oed ers dechrau 2018 mae wedi dod bron yn amhosib cael gwellt mewn bwyta, siopau coffi a'r diwydiant lletygarwch ehangach. Fel y gwelwch, rwy'n llwyr yn erbyn unrhyw fath o gyfyngiad ac yn sicr yn erbyn gwaharddiad o 'Wellt Plastig Hyblyg Un Defnydd'. **(Ymgyrchydd dros bobl anabl)***

*"Mae gwahardd yr eitemau hyn a gofyn i bobl anabl, sydd eisoes â nifer fawr o dreuliau ychwanegol ar eu cyllideb, i brynu rhai y gellir eu hailddefnyddio yn hynod annheg. Dwi'n gwybod bod y syniad wedi cael ei gyflwyno i gael eitemau aildddefnyddiadwy a dim ond eu cynnig os oes rhywun yn gofyn amdany'n nhw, ond mae hyn hefyd yn arwain at lu o broblemau. Mae cael pobl nad ydynt yn anabl i gadw'r eitemau hyn, a dim ond gadael i bobl maen nhw'n eu hystyried fel rhai "gwirioneddol mewn angen" i'w cael yn agor y drws i bob math o wahaniaethu. Mae llawer o anabledau, gan gynnwys fy rhai i, yn anweledig i'r rhan fwyaf o bobl. Mae cael yr eitemau mae eu hangen arnom yn gallu bod yn brofiad trawmatig, byddai'n sicr yn effeithio ar fy iechyd meddwl ac yn gwneud i mi feddwl dwywaith cyn mynd i lefydd tebyg yn y dyfodol. Mae hygyrchedd eisoes yn broblem enfawr yn ein cymdeithas, byddai gwahardd plastigion untro yn gwneud y broblem hon yn waeth byth. Fel y dywedais ar y dechrau rwy'n cefnogi gwahardd plastig untro, yn bennaf mewn deunydd pacio, ond gan fod mwy nag 1 o bob 4 o bobl yng*

*Nghymru yn byw gyda rhyw fath o anabledd, rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch chi'n ystyried sut y gallai'r penderfyniad hwn effeithio arnom'. **(Person anabl)***

*'Nid wyf yn cefnogi gwahardd eitemau plastig untro sy'n cael eu defnyddio amlaf gan (ac sydd wedi'u dyfeisio ar eu cyfer hefyd gyda llaw) pobl anabl; sef gwellt. Rwy'n deall yn llwyr yr angen i leihau gwastraff plastig untro ond mae'r eitemau hyn yn aml yn hanfodol i bobl anabl fwyta ac yfed yn ddiogel. Nid yw pob opsiwn y gellir ei aildefnyddio yn addas i bawb oherwydd alergeddau, yr anallu i leoli'n gywir, perygl o anaf, neu'r gost. **(Unigolyn)***

*"Bydd hyd yn oed rhywbeth mor syml â chwpanau a gwellt y gellir eu haildefnyddio yn cyflwyno problemau hylendid posibl mewn ysbytai neu leoliadau gofal iechyd eraill. Rydym ni'n awgrymu ymgynghoriad ar wahân gan Lywodraeth Cymru ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sefydlu dewisiadau amgen addas na fydd yn peryglu gofal cleifion ac a fydd yn sicrhau amgylchedd diogel a hylan' **(Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus - Polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru)***

Roedd sylwadau eraill a ddaeth i law yn ymwneud â'r angen i roi eglurder i fanwerthwyr a chwsmeriaid ynglŷn ag eithriadau arfaethedig, a dylai'r angen i sicrhau bod unrhyw ganllawiau a gyhoeddir i gefnogi'r cynigion hyn hefyd ar gael mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg o ystyried natur aml-genedlaethol y sectorau lletygarwch ac arlwyo.

Wrth ddatblygu'r Bil Plastig Untro, rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom yng nghyswllt cefnogi angen grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Ar ben hynny, rydym wedi hwyluso trafodaethau ychwanegol gyda'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ac ystod o grwpiau nodweddion gwarchoddedig i sicrhau ein bod wedi deall gofynion unigol ac adborth unigol i'r ymgynghoriad yn well. Mae nifer o eithriadau yn cael eu cynnwys yn y Bil Plastig Untro er mwyn sicrhau argaeledd a hygyrchedd parhaus cynnyrch perthnasol.

### Ymgysylltu wedi'i dargedu yn 2022

Ar ôl i'r ymgynghoriad llawn gau ym mis Hydref 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA). Cafodd ein cynigion i gyflwyno'r gwaharddiadau hyn eu gohirio bryd hynny wrth i ni ystyried yr effaith y gallai UKIMA ei chael ar ein gallu i gyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethol i ddeddfu yn y maes hwn .

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn parhau ar yr eitemau yr ymgynghorwyd arnynt yn 2020, a'r cynnyrch ychwanegol yr oedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi gofyn i gael eu cynnwys mewn cynigion yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- Grwpiau nodweddion gwarchoddedig, unigolion a chynrychiolwyr,
- Plant a phobl ifanc, gan gynnwys sefydliadau sy'n eu cynrychioli
- Sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol,

- Cynrychiolwyr o'r sector addysg,
- Cynrychiolydd o'r sector iechyd (sylfaenol ac eilaidd),
- Cynrychiolwyr o'r sector amaethyddiaeth
- Sefydliadau gweithgynhyrchu
- Sefydliadau adwerthu

Pwrpas yr ymgysylltiad wedi'i dargedu hwn oedd cael rhagor o dystiolaeth ynghylch addasrwydd cynnyrch amgen i'r cynnyrch hwnnw y cynigir ei wahardd yn ein hymgyngoriad yn 2020, yr effeithiau posibl i grwpiau nodweddion gwarchoddedig, a sut y mae modd lliniaru'r effeithiau hynny. Hefyd, i drafod cynnwys cynnyrch ychwanegol, y gofynnwyd amdanynt gan ymatebwyr yn ystod ymgynghoriad 2020, effeithiau posibl y cynnyrch hwn ac a fyddai'n ofynnol i unrhyw eithriadau lliniaru'r effeithiau hyn.

### Ymatebion i ymgysylltiad wedi'i dargedu

Mae dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltiad wedi'i dargedu yn cefnogi'r wybodaeth a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad llawn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod eitemau amgen addas nad ydynt yn blastig eisoes ar y farchnad ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau a gynigir yn y gwaharddiadau, megis ffyn cotwm papur neu gardbord, platiau a ffyn balŵn, a chytleri a throyddion diodydd pren. Mae papur / cardbord neu fathau eraill o gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd ar gael.

Cytunodd yr ymatebwyr y byddai gwahardd gwellt SUP yn arwain eu penderfyniad i ddefnyddio gwellt amgen fel metel, papur, gwydr, silicon, acrylig, pasta/reis, bambŵ, a deunyddiau bioddiraddadwy eraill. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn poeni, ar gyfer rhai o'r boblogaeth, yn enwedig pobl iau, hŷn a phobl anabl, nad oedd gwellt yfed SUP amgen yn addas am nifer o resymau, sy'n cyd-fynd â'r adborth a gafwyd yn ymgynghoriad 2020 fel y nodir [yma](#).

### Eitemau ychwanegol i'w cynnwys yn ein cynigion

Yn ystod 2020 fe wnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi nifer o gynnyrch ychwanegol roeddent eisiau gweithredu arno. Mae adborth o ymgynghoriad 2020 a thrafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid yn ystod yr ymgysylltiad yn 2022, wedi ein helpu i ffurfio ein polisi ymhellach yn y maes hwn i gynnwys caeadau cwpanau plastig a chynwysyddion bwyd tecawê untro a bagiau siopa untro (SUCBs) yn ein cynigion.

### SUCBs

Er bod y defnydd o SUCBs wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno [Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro \(Cymru\) 2010](#) (yn bennaf gan nad yw archfarchnadoedd yn eu darparu wrth y ddesg dalu mwyach), maent yn dal i gael eu defnyddio'n helaeth yn y sector manwerthu dillad ac ymhlith busnesau bach a chanolig (BBaCh). Mae cynnwys SUCBs yn ein cynigion yn gyson

â nod ehangach Llywodraeth Cymru o gael gwared ar eitemau untro yn raddol a lleihau'r defnydd o adnoddau.

Rydym yn cynnig bod SUCBs sy'n cael eu cynnwys yn y tâl ar hyn o bryd (y rhai sy'n cyfateb neu'n fwy na 49 micron mewn trwch ac sy'n bodloni diffiniadau maint y rheoliadau codi tâl presennol) yn cael eu gwahardd. Ni fydd hyn yn cynnwys bagiau plastig mwy trwchus sy'n cael eu defnyddio gan archfarchnadoedd ar hyn o bryd gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn "fagiau am oes". Ni fydd ychwaith yn cynnwys bagiau plastig teneuach, fel sachau cewynnau, bagiau baw cŵn neu fagiau a ddefnyddir fel arfer i gludo tecawê.

Mae'r rheoliadau ar godi tâl am fagiau siopa yn cynnwys eithriadau, gan gynnwys y rheini am resymau iechyd a diogelwch bwyd. Bydd rhai o'r eithriadau hyn yn cael eu cadw.

### Caeadau cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê a chynnyrch ocsi-ddiraddadwy

Er eu bod wedi'u cynnwys yn ein cynigion, ni fydd y gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig oco-ddiraddadwy a chaeadau cynwysyddion cwpanau a bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren, yn dod i rym ar yr un pryd â phob eitem arall yn ein cynigion.

Rydym yn cynnig gohirio'r dyddiad dechrau ar gyfer yr eitemau hyn er mwyn gallu ymgysylltu ymhellach â'r sectorau yr effeithir arnynt, a chaniatáu mwy o amser i'r sectorau hynny yr effeithir arnynt addasu. Bydd asesiadau effaith ar gyfer yr eitemau hyn yn cael eu cwblhau maes o law.

## **Eithriadau i liniaru effeithiau**

### Gwellt Yfed

Rydym yn cydnabod bod angen gwellt yfed plastig hyblyg ar gyfer rhai pobl anabl neu'r rheini sydd ag anghenion hygyrchedd er mwyn iddynt allu bwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Mae ein cynigion yn cynnwys eithriadau i ddiogelu mynediad at wellt plastig untro ar gyfer y rheini sydd eu hangen. Unwaith y bydd y gwaharddiad mewn grym, bydd gwellt plastig untro ar gael i'w prynu mewn fferyllfeydd, a roddir ar gais, er enghraifft mewn safleoedd lletygarwch neu arlwyo neu os cânt eu darparu am resymau meddygol.

- **Fferyllfeydd** (gan gynnwys ar-lein) – maent yn gallu prynu gwellt plastig untro gan wneuthurwyr neu gyfanwerthwyr er mwyn i unigolion sydd eu hangen, neu rywun ar eu rhan, allu eu prynu i'w defnyddio gartref neu yn rhywle arall.
- **Adeiladau sy'n darparu bwyd neu ddiod** – bydd busnesau arlwyo, fel caffis, bwytai a thafarndai yn dal i allu prynu gwellt plastig untro gan wneuthurwyr neu gyfanwerthwyr i'w rhoi i rywun y mae eu hangen arnynt i fwyta ac yfed yn annibynnol, neu rywun sy'n gofyn am welltyn ar eu rhan. Mae'n bwysig nodi nad oes angen i gwsmeriaid ddarparu prawf o angen wrth wneud cais am wellt.

- **Dibenion meddygol** – Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu darparu gwellt plastig untro lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys i'w defnyddio mewn ysbytai a lleoliadau meddygol eraill.

Drwy ddefnyddio dull sy'n gyson â rhannau eraill o'r DU, mae'r eithriad yn rhoi eglurder i bobl ynghylch sut i gael gafael ar wellt plastig untro lle bynnag y maent wedi'u lleoli. Mae hefyd yn rhoi eglurder a chysondeb i fusnesau.

### Gwellt sy'n sownd

Mae gwellt sy'n sownd i gartonnau bwyd neu ddiodydd neu becyn sudd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad ar wellt SUP, yn amodol ar yr eithriad canlynol:

- at ddibenion meddygol (mae hyn yn golygu y bydd gwellt yn aros at ddibenion meddygaeth ataliol, diagnosis meddygol, ymchwil feddygol a darparu gofal meddygol a thriniaeth gan weithiwr iechyd proffesiynol neu o dan gyfarwyddyd gweithiwr iechyd proffesiynol).

Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod atchwanegiadau deiet maethol, sydd weithiau'n cael eu darparu i bobl nad ydynt yn bwyta'n iawn ac sy'n cael eu rhoi drwy garton gyda gwellt plastig yn sownd, yn parhau ar gael. Mae hefyd yn sicrhau y byddai diodydd eraill (e.e. sudd ffrwythau) a fyddai'n dod mewn cartonau gyda gwellt plastig yn sownd yn dal i gael eu cynnwys yn y gwaharddiad.

### **Sut bydd y cynnig yn hybu cydraddoldeb?**

Bydd y gwaharddiadau arfaethedig yn berthnasol i bob unigolyn sy'n defnyddio'r cynnyrch hwn, ac eithrio'r unigolion hynny mewn grwpiau nodweddion gwarchoddedig sy'n dibynnu ar yr eitemau hyn i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Bydd yr eithriadau yr ydym yn bwriadu eu cynnwys yn cefnogi byw'n annibynnol, cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad cyfartal i bobl mewn grwpiau nodweddion gwarchoddedig sydd eu hangen.

Mae effeithiau niweidiol llygredd a newid hinsawdd ar yr amgylchedd ac iechyd pobl yn amlwg ac wedi cael eu trafod yn drylwyr. Mae adroddiad gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn tynnu sylw at bwysigrwydd effaith newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles poblogaeth Cymru, yn benodol yr effeithiau negyddol ar grwpiau mwy agored i niwed a difreintiedig y gellid eu heffeithio'n anghymesur, gan gynnwys plant a phobl ifanc; oedolion hŷn; pobl anabl ac unigolion sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, a phobl sy'n byw ar incwm isel. Hefyd, gall rhai llefydd ac adeiladau - yn enwedig lle mae cleifion a phobl fregus, byw, neu ymweld - gael eu heffeithio i raddau mwy gan dywydd eithafol.

Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y mater hwn drwy leihau'n syth faint o eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel ac effaith gadarnhaol hirdymor lleihau faint o



blastig sy'n llygru'r amgylchedd, gan gyfrannu at newid hinsawdd. Bydd ein cynigion hefyd yn sicrhau mannau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad sydd â'r budd posibl o wella lles meddyliol a chorfforol wrth i bobl fwynhau eu hamgylchedd lleol fwy, a all hefyd arwain at fwy o gydlyniant cymdeithasol wrth i bobl gymdeithasu a rhyngweithio mwy ag eraill yn eu cymuned.

## Grwpiau Gwarchoddedig

Drwy dystiolaeth a gawsom yn ein hymgyngghoriad cyhoeddus llawn [Lleihau plastig untro](#) yn 2020 a'n hymgysylltiad parhaus yn 2022, rydym wedi nodi y bydd ein cynigion yn effeithio ar y grwpiau canlynol:

- **Plant a phobl ifanc (oed)**
- **Pobl hŷn (oed)**
- **Pobl anabl (a'u gofalwyr)**
- **Beichiogrwydd a mamolaeth**
- **Hil**
- **Pobl ar incwm isel**

## Beth yw'r effeithiau posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a sut fyddwch chi'n lliniaru ar gyfer y rhain?

### Effeithiau ar blant a phobl ifanc

#### Effaith gadarnhaol

Drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, mae'n amlwg eu bod yn deall yr effaith gadarnhaol y mae eu gweithredoedd a'u penderfyniadau yn ei gael ar lygredd plastig. Maent yn dangos brwdfrydedd o ran y gallu i fod yn fwy cynaliadwy a moesegol ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r effaith y mae eu dewisiadau a'u gwerthoedd yn ei chael ar eu hamgylchedd a'u cymunedau, drwy ddewis defnyddio dewisiadau amgen i blastig neu eitemau nad ydynt yn rhai defnydd unigol, sydd ar gael yn rhwydd. Mae ymgysylltu â'r materion hyn yn grymuso plant a phobl ifanc ac yn eu helpu i ddeall hefyd sut bydd y cynigion hyn yn effeithio ar grwpiau eraill megis pobl ifanc a phobl hŷn neu bobl anabl. Yn ogystal ag ymgysylltu â'n cynigion maent hefyd wedi darparu sawl awgrym i weithredu ymhellach, fel pecynnau bwyd a gwaelodion sigarêts. Hefyd awgrymu ffyrdd adeiladol o ymgysylltu ymhellach â nhw ar y mater hwn drwy gyfryngau cymdeithasol ac ati.

Mae mynd i'r afael â'n gorddefnydd o blastig untro yn broblem sydd wedi'i hyrwyddo gan nifer o bobl ifanc. Mae yna lawer o ymgyrchoedd dan arweiniad plant a phobl ifanc i frwydro yn erbyn gwastraff plastig. Maen nhw wedi trefnu sawl ymgyrch, gan gynnwys [Adroddiad Senedd Ieuencid Cymru](#) ar daflu sbwriel a gwastraff plastig. Nod ein cynigion yw adeiladu ar hyn.

Rydym am newid ymddygiad defnyddwyr tuag at ddefnyddio llai o eitemau untro a gwella ein henw da byd-eang fel esiamp! o ran ailgylchu.

Mae [Adroddiadau Natural Super Kids](#) yn nodi y bydd mynd i'r afael â llygredd plastig hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd gan fod plant yn llawer mwy agored i'r effeithiau niweidiol sy'n cael eu hachosi gan wenwynau amgylcheddol fel plastig. Maen nhw'n dal i ddatblygu – mae eu perfedd, system imiwneidd, yr ymennydd a systemau atgenhedlu yn dal i gael eu hadeiladu. Mae hyn yn eu gwneud yn fwy tueddol o ddiodeff effeithiau negyddol amlygiad i blastig.

Hefyd, bydd y cynigion hyn yn bodloni'r gofyniad [yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#), yn benodol Erthygl 31 ac Erthygl 24, drwy leihau llygredd aer a darparu manau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad ar gyfer cerdded, dysgu, rhedeg, beicio a chwarae.

Nodwyd mai newid hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf y mae ein cenedlaethau i ddod yn eu hwynebu; bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar amddiffyn ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Effeithiau Negyddol

Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, pobl anabl a'u cynrychiolwyr, rydym wedi nodi y bydd effaith fach ar blant a phobl ifanc yng nghyswllt ein cynnig i wahardd gwellt SUP. Ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, mae gwellt addas eraill ar gael yn rhwydd ar y farchnad, ond yn ystod yr ymgynghori â phlant a phobl ifanc codwyd rhywfaint o bryder ynghylch ymarferoldeb gwellt papur, a allai fynd yn feddal ac achosi i rywun dagu. Disgwylir i'r sefyllfa hon wella wrth i weithgynhyrchwyr barhau i arloesi er mwyn bodloni'r galw cynyddol am atebion gwellt mwy cynaliadwy.

Mae trafodaethau gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl o bob oed yn cadarnhau bod gwellt plastig hyblyg yn hanfodol i rai unigolion er mwyn eu galluogi i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol, felly byddai cael gwared arnynt yn achosi baich ychwanegol ar bobl ifanc sy'n ofalwyr, neu bobl ifanc sy'n cael gofal. Mae gwybodaeth gan [Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#) yn nodi bod tua 30,000 o ofalwyr ifanc yng Nghymru, a Chymru sydd â'r ganran uchaf y pen o ofalwyr ifanc o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Bydd yr eithriadau rydym wedi'u cynnwys ar gyfer gwellt SUP yn lliniaru'r effaith hon.

Mae'r gwaharddiad ar wellt hefyd yn cynnwys gwellt sy'n sownd i gynwysyddion diod, fel cartonau neu becynnau diod sy'n cael eu defnyddio gan blant fel arfer. Bwriad y gwaharddiad yw annog newid i ddewisiadau eraill sy'n ecogyfeillgar neu eitemau y gellir eu haildefnyddio. Mae manwerthwyr wedi ymateb i hyn ac yn gwneud newidiadau i greu cynnyrch di-blastig. Mae nifer o frandiau mawr fel Ribena a Capri Sun eisoes wedi rhoi gwellt papur yn sownd i'w

cartonau yn lle eu gwellt plastig. Felly, dim ond effaith negyddol fach fydd yn seiliedig yn bennaf ar y dewis o gartonau/pecynnau diodydd sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd.

Efallai y bydd plant ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio ffyn balwnau ac efallai y bydd gwaharddiad ar yr eitem hon yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae manwerthwyr wedi ymateb i'r cynigion i wahardd ffyn plastig ac mae mathau fforddiadwy o gardbord ecogyfeillgar y gellir eu hailgylchu, yn hytrach na ffyn balwnau plastig, bellach ar gael ar y farchnad.

Nid oedd ein hymgyngoriad wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc o ran eitemau eraill yn ein cynigion. Ystyriwyd bod eitemau eraill nad ydynt yn rhai plastig neu untro addas ar gael yn rhwydd ar y farchnad ar gyfer yr eitemau hyn.

## **Effeithiau ar Bobl Hŷn**

### Effaith gadarnhaol

Bydd cyflwyno'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau'n syth faint o eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel, ac effaith gadarnhaol hirdymor lleihau faint o blastig sydd yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn gwella ansawdd mannau gwyrdd a glas y gall pobl gael mynediad atynt a'u mwynhau, sydd â budd posibl o wella lles meddyliol a chorfforol wrth i bobl fwynhau eu cymuned leol fwy. Mae cysylltiad cryf rhwng lles oedolion hŷn a'r amgylchedd preswyl, lle mae'r boblogaeth hŷn yn gyffredinol yn treulio mwy o amser na'r boblogaeth iau oherwydd, er enghraifft, ymddeoliad neu symudedd cynyddol gyfyngedig.

Bydd mynd i'r afael â phroblem sbwriel a llygredd plastig, a gwella'r amgylchedd yn gwella iechyd a lles unigolion, yn ogystal ag iechyd a lles eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Rydym yn disgwyl y bydd y canlyniadau amgylcheddol a gyflwynir gan ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl hŷn. Bydd mynd i'r afael â llygredd plastig yn darparu ansawdd aer gwell sy'n debygol o fod o fudd i bobl hŷn – mae [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn nodi “Rydym yn gwybod bod gwahanol bobl yn cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd gan lygredd aer; er enghraifft, mae plant, pobl hŷn a'r rheini sydd â chyflyrau cronig ar yr ysgyfaint neu'r galon yn cael eu hystyried yn fwy agored i effeithiau amlygiad i lygredd aer”.

### Effeithiau Negyddol

Drwy ymgynghori, rydym wedi nodi y bydd y gwaharddiad arfaethedig ar wellt SUP yn cael effaith negyddol fach ar bobl hŷn. Mae nifer o gynnyrch untro gwahanol a heb fod yn gynnyrch untro addas ar gael ar y farchnad.

Bydd unrhyw effaith negyddol ar bobl hŷn, sy'n dibynnu ar hyblygrwydd gwellt plastig i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol, yn enwedig os oes ganddynt salwch neu gyflwr meddygol hefyd, yn cael ei lliniaru drwy gynnwys eithriadau yn ein cynigion.

Ni wnaeth ein hymgyngghoriad nodi unrhyw effeithiau negyddol i bobl hŷn oedd yn ymwneud â gwaharddiadau arfaethedig ar gynhyrchion eraill. Ystyriwyd bod eitemau eraill nad ydynt yn rhai plastig ar gael yn rhwydd ar y farchnad ar gyfer yr eitemau hyn.

## **Hil ac ethnigrwydd**

Mae [arolwg o ymddygiad busnesau bach Cymru ar gyfer 2019](#) yn dangos mai busnesau bach a chanolig (0 i 249 o weithwyr) oedd yn bennaf gyfrifol am strwythur y boblogaeth fusnes yng Nghymru yn 2019. Mae hyn yn cyfrif am fwy na 99% o'r boblogaeth fusnes yng Nghymru. Busnesau sy'n cael eu harwain gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig yw'r rheini sydd â dim ond unigolyn o leiafrif ethnig yn rheoli'r busnes neu sydd â thîm rheoli gydag o leiaf hanner ei aelodau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yn gyffredinol, roedd un a hanner y cant o'r busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael eu harwain gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gyfran isaf ar gyfer microfusnesau (1.2%) ac uchaf ar gyfer busnesau canolig eu maint (3.4%).

Roedd ein gwaith ymchwil cychwynnol yn dangos y gallai gwahardd neu gyfyngu ar y cyflenwad o gynnyrch yn ein cynigion gael effaith isel neu gymedrol ar fusnesau yng Nghymru. Bydd costau pontio (dod o hyd i gynnyrch nad yw'n blastig), roedd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos bod yr effeithiau cyffredinol ar fusnesau yn debygol o fod yn fach os yw cynnyrch nad yw'n blastig yn gost gymharol a lle mae'r cynnyrch hwn yn cynrychioli cyfran gymharol fach o gostau busnes yn gyffredinol.

Felly, efallai y bydd effaith negyddol isel ar bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n berchnogion busnes yn y tymor byr, wrth i fusnesau addasu i gyflwyno'r cynigion hyn, er bod adborth o'n hymgyngghoriadau yn dangos bod nifer fawr o ddefnyddwyr eisoes wedi newid eu harferion prynu, gan eu bod yn ystyried yn fwy gofalus sut y gallai'r nwyddau maent yn eu prynu effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd.

Gall perchnogion busnesau lleiafrifoedd ethnig hefyd fod yn bryderus ynghylch cael arweiniad ar weithredu'r cynigion, mewn iaith ar wahân i'r Saesneg. Bwriad y canllawiau yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael i bob dinesydd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb.

## **Pobl anabl**

### Effeithiau cadarnhaol

Bydd cyflwyno'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, yn enwedig pobl anabl, drwy fynd i'r afael â llygredd plastig a newid yn yr hinsawdd sy'n cael effaith negyddol ar iechyd a lles poblogaeth Cymru.

### Effeithiau Negyddol

Gall namau ac anabledau dysgu ei gwneud yn anoddach i bobl wneud gweithgareddau dyddiol sy'n aml yn cael eu cymryd yn ganiataol. Mae adroddiad [Llesiant Cymru 2021](#), sy'n rhoi cipolwg ar gyflwr y genedl a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn darparu'r data canlynol:

- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl 16 i 64 oed (46.7% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021) yn dal yn is nag ymysg y rheini nad ydynt yn anabl.
- Mae cyfran y bobl sydd â salwch neu anabled hirdymor cyfyngus sy'n byw ar aelwyd mewn amddifadedd materol wedi aros yn 21% yn 2019-20 ond mae ddwywaith yn uwch nag ar gyfer y rheini nad ydynt yn anabl (9%).
- Roedd y bwch cyflog ar sail anabled yng Nghymru yn 9.9% yn 2018. Mae hyn yn golygu bod pobl anabl yng Nghymru yn ennill 9.9% yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl.
- Mae cyfran ychydig yn uwch o bobl anabl cyflogedig yn gweithio mewn diwydiannau a oedd yn gorfod cau yn ystod cyfnod cynnar y pandemig o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl (17% o'i gymharu â 15%).

Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod unigolion, sydd â salwch neu anabled hirdymor cyfyngus, eisoes dan anfantais yn gymdeithasol ac yn ariannol. [Mae bywyd £583 yn ddrutach i chi ar gyfartaledd bob mis os ydych chi'n berson anabl. Ar gyfartaledd, mae teuluoedd plant anabl yn wynebu costau ychwanegol o £581 y mis. Mae'r costau ychwanegol dros £1,000 y mis i bron i chwarter \(24%\) y teuluoedd sydd â phlant anabl.](#)

Roedd y pryderon a godwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymwneud yn bennaf ag addasrwydd a chost cynnyrch amgen. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai fod angen i rai unigolion ddefnyddio nifer o wellt y dydd a allai fod yn faich ariannol pe bai'n rhaid prynu dewisiadau amgen eraill y gellir eu hailddefnyddio neu ddewisiadau nad oes modd eu hailddefnyddio am gost uwch. Mae cynnwys eithriadau i wellt SUP yn sicrhau nad oes effaith ariannol bellach ar deuluoedd incwm isel a oedd yn dibynnu ar y cynnyrch hwn.

Ni wnaeth ein hymgyngoriad nodi unrhyw effeithiau negyddol i bobl anabl oedd yn ymwneud â gwaharddiadau arfaethedig ar eitemau eraill. Ystyriwyd bod eitemau eraill nad ydynt yn rhai plastig ar gael yn rhwydd ar y farchnad ar gyfer yr eitemau hyn.

## **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Mae microblastigion, darnau plastig llai na 5 mm, wedi dod yn fwyfwy amlwg yn y byd naturiol, ac mae astudiaethau a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys sawl un o 2020, yn dangos eu bod wedi halogi nid yn unig y môr a'r lle rydyn ni'n byw, ond yr aer, ein bwyd, a hyd yn oed ein cyrff.

Effaith gadarnhaol

Mae corff cynyddol o [ymchwil](#) yn dangos bod plastig yn ymosod ar ein cyrff drwy'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae astudiaeth newydd bellach

wedi dangos bod microblastig hyd yn oed yn bresennol mewn brychau dynol, sy'n peri risg bosibl i iechyd a datblygiad y ffetws.

Mae'n debyg bod y microblastigion yn mynd i mewn i gyrff y mamau drwy'r bwyd maent yn ei lyncu neu drwy anadlu, ac yna'n cael eu trawsleoli i'r brychau. Er bod angen gwneud rhagor o ymchwil ar y pwnc, credir y gallai'r microblastigion hyn amharu ar fecanweithiau imiwnedd mewn babanod.

Bydd cyflwyno ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau'n syth faint o gynnyrch plastig untro sy'n cael ei daflu fel sbwriel, ac effaith gadarnhaol hirdymor lleihau faint o blastig sydd yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn lleihau'r effaith negyddol y mae taflu sbwriel, llygredd plastig a newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n lles a bydd yn darparu'r gofynion iechyd mwyaf sylfaenol: aer glân a dŵr diogel.

## **Aelwydydd Incwm Isel**

Rydym yn diffinio rhywun sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwyd yn y DU.

Roedd yr ystadegau yn yr adroddiad [Tlodi Incwm Cymharol: Ebrill 2019 i Mawrth 2020](#) yn ymwneud â thlodi incwm cymharol yng Nghymru ar ôl talu costau tai fel taliadau/rhent llog morgais, cyfraddau dŵr ac yswiriant tai strwythurol.

Mae'n adrodd bod bron i chwarter yr holl bobl yng Nghymru (23%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) rhwng 2017 a 2020. Plant sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol (31% o blant o gymharu â 18% o bensiynwyr). Rhwng 2017 a 2020, roedd 22% o oedolion Cymru o oedran gweithio yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Yn yr adroddiad, yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, nodir mai pobl anabl yw'r rheini sy'n rhoi gwybod am unrhyw salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy, ac sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd ychydig, neu lawer. Mae byw gyda rhywun sydd ag anabledd yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl oed gweithio. Yn y cyfnod diweddaraf (2017-18 i 2019-20):

- Roedd 38% o'r plant a oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd rhywun ag "anabledd" mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 26% o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl
- i oedolion o oedran gweithio, roedd 31% yn byw mewn teulu lle'r oedd rhywun ag "anabledd" mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 18% o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl.

Mae'r adroddiad wedi nodi bod oedolion neu blant sy'n byw ar aelwyd gyda rhywun anabl eisoes yn debygol o fod dan anfantais ariannol. Felly, mae sicrhau bod gwellt plastig rhad yn dal ar gael i'r rheini sy'n dibynnu arnynt yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.

## **Aelwydydd mewn ardaloedd difreintiedig**

Rydym yn disgwyl i'n cynigion, drwy leihau llygredd plastig ac atebion taflu sbwriel sy'n lleihau'r perygl o lifogydd (e.e. amaeth-goedwigaeth, gwell iechyd pridd) a mwy o fynediad i gefn gwlad, i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr amgylchedd ffisegol ac felly gellir gwella'r mesur hwn o amddifadedd.

## **Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu? A oes modd lleihau, dileu a lliniaru'r rhwystrau hyn?**

Er y bydd eithriadau ar gyfer gwellt yn sicrhau eu bod yn dal ar gael ar gais i'r unigolion hynny sydd eu hangen, mae gan y newid yn y ffordd y cânt eu defnyddio botensial i effeithio ar bobl anabl mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Colli annibyniaeth oherwydd bod llai o wellt ar gael wrth i amgylcheddau lletygarwch ddod yn llai cynhwysol a hygyrch i unigolion sydd angen gwellt.
- Stigmatiddio a meddygoleiddio dianghenraid sydd ynghlwm wrth y llwybrau posibl at gael gafael ar wellt o dan eithriad.

**Barnwyd bod anabledd yn ffactor sy'n cymell 11% o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2019-20.** Mae adborth gan bobl anabl a grwpiau cynrychioladol yn pwysleisio eu bod yn poeni am yr amgylchedd ac yn awyddus i wneud eu rhan, ac nid ydynt eisiau dioddef gwahaniaethu ac agweddau negyddol am barhau i ddefnyddio eitemau y maent yn dibynnu arnynt i ofalu amdanynt eu hunain neu i gadw'n ddiogel.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnesau, gweithgynhyrchwyr, y rheini sy'n gorfodi'r gwaharddiadau a grwpiau nodweddion gwarchoddedig i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i gefnogi'r gwaith o weithredu'r gwaharddiadau. Y bwriad yw darparu gwybodaeth, a gyhoeddir mewn nifer o fformatau, a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, adwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Bydd y gwaith o gyflwyno'r gwaharddiadau hyn a chyhoeddi canllawiau'n cael ei gefnogi ymhellach drwy godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r angen i gadw rhai eitemau ar gael i unigolion sy'n dibynnu arnynt. Bydd hefyd yn egluro sut rydym yn disgwyl i'r cynhyrchion hyn fod yn hygyrch ac yn rhoi canllawiau penodol i adwerthwyr ar hyn.

Nid bwriad penodol y polisi yw mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig. Fodd bynnag, ar sail y gefnogaeth aruthrol i gyflwyno'r cynigion a'n hesemptiadau arfaethedig yng nghyswllt gwellt, nid ydym yn credu y byddai cyflwyno'r cynigion hyn yn achosi gwrthdaro rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt.

Er y bydd rhoi'r cynigion hyn ar waith yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, credwn fod cynnwys yr eithriadau hyn, er mwyn

lleihau'r effaith y bydd y cynigion hyn yn ei chael ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lleihau effaith amgylcheddol ochr yn ochr â diogelu hawliau pobl sydd angen y cynhyrchion hyn o hyd. Bydd cynnwys eithriadau i'r cynigion yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol nac yn anghyfreithlon fel arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac mae'n annhebygol y bydd y polisi'n cael effaith wahaniaethol. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.

### Cofnod o'r Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
<b>Oedran (Pobl hŷn)</b>	<p><u>Effaith negyddol</u> Gall pobl hŷn gael eu heffeithio gan gael gwared ar wellt plastig hyblyg</p> <p><u>Effaith gadarnhaol</u> Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i lygredd aer, ac mae disgwyl i'n cynigion wella'r amgylchedd gan gynnwys ansawdd aer.</p>	<p>Drwy ymgysylltu ac ymgynghori un-i-un wedi'i dargedu â defnyddwyr, rydym wedi nodi y gallai pobl hŷn, sy'n fwy tebygol o ddioddef o gyflyrau meddygol a salwch, fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gyfyngiadau'r farchnad ar wellt plastig. Efallai y bydd angen yr hyblygrwydd y gall gwellt plastig ei roi er mwyn iddynt allu bwyta ac yfed yn ddiogel neu'n annibynnol, mewn amrywiaeth o leoliadau.</p> <p>Mae'r dystiolaeth a nodwyd mewn adroddiad gan <a href="#">lechydd Cyhoeddus Cymru</a> yn tynnu sylw at bwysigrwydd effaith y newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles poblogaeth Cymru</p>	<p>Bydd darparu gwellt plastig untro, yn unol ag eithriadau ar gyfer anghenion meddygol/gofal iechyd, yn cefnogi byw'n annibynnol, cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad cyfartal i bobl sydd eu hangen i fwyta neu yfed yn ddiogel ac yn annibynnol, neu os oes angen y gwellt at ddibenion meddygol.</p> <p>Bydd cyflwyno'r cynigion hyn yn lleihau llygredd aer ac yn darparu mannau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad drwy gerdded, rhedeg, seiclo, gwneud gwaith cadwraeth a chwarae</p>



<p><b>Anabledd (oedolion a phlant)</b></p>	<p><u>Effaith negyddol</u> Gall pobl anabl gael eu heffeithio gan gael gwared ar wellt plastig hyblyg</p> <p><u>Effaith gadarnhaol</u> Mae pobl anabl yn arbennig o agored i lygredd aer, ac mae disgwyl i'n cynigion wella'r amgylchedd gan gynnwys ansawdd aer.</p>	<p>Drwy ymgysylltu ac ymgynghori un-i-un wedi'i dargedu â defnyddwyr, rydym wedi nodi y gallai pobl anabl fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gyfyngiadau'r farchnad ar wellt plastig. Efallai y bydd angen yr hyblygrwydd y gall gwellt plastig ei roi er mwyn iddynt allu bwyta ac yfed yn ddiogel neu'n annibynnol, mewn amrywiaeth o leoliadau.</p> <p>Mae'r dystiolaeth a nodwyd mewn adroddiad gan <a href="#">Iechyd Cyhoeddus Cymru</a> yn tynnu sylw at bwysigrwydd effaith y newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles poblogaeth Cymru</p>	<p>Bydd darparu gwellt plastig untro, yn unol â'r eithriadau, yn cefnogi byw'n annibynnol, cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad cyfartal i bobl sydd eu hangen i fwyta neu yfed yn ddiogel ac yn annibynnol, neu os oes angen y gwellt at ddibenion meddygol.</p> <p>Bydd cyflwyno'r cynigion hyn yn lleihau llygredd aer ac yn darparu manau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad drwy gerdded, rhedeg, seiclo, gwneud gwaith cadwraeth a chwarae.</p>
<p><b>Plant a phobl ifanc</b></p>	<p>Bydd plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr i aelodau o'r teulu efallai'n cael eu heffeithio'n arbennig os bydd yn rhaid cael gwared ar wellt plastig.</p> <p><u>Effaith gadarnhaol</u></p>	<p>Mae gwybodaeth gan <a href="#">Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru</a> yn nodi bod tua 30,000 o ofalwyr ifanc yng Nghymru, a Chymru sydd â'r ganran uchaf y pen o ofalwyr ifanc o'i gymharu â gwledydd eraill y DU.</p> <p>Mae'r dystiolaeth a nodwyd mewn adroddiad gan <a href="#">Iechyd Cyhoeddus</a></p>	<p>Bydd darparu gwellt plastig untro, yn unol ag eithriadau ar gyfer anghenion meddygol/gofal iechyd, yn cefnogi byw'n annibynnol, cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad cyfartal i bobl sydd eu hangen i fwyta neu yfed yn ddiogel ac yn annibynnol, neu os oes angen y gwellt at ddibenion meddygol.</p>

	Mae plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i lygredd aer, ac mae disgwyl i'n cynigion wella'r amgylchedd gan gynnwys ansawdd aer.	<a href="#">Cymru</a> yn tynnu sylw at bwysigrwydd effaith y newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles poblogaeth Cymru	Bydd cyflwyno'r cynigion hyn yn lleihau llygredd aer ac yn darparu mannau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad drwy gerdded, rhedeg, seiclo, gwneud gwaith cadwraeth a chwarae.
<b>Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a Phobl Drawsryweddol)</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol.		Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	<u>Effaith gadarnhaol</u> Gall llygredd plastig arwain at risgiau iechyd i fabanod.	Mae corff cynyddol o <a href="#">ymchwil</a> yn dangos bod plastig nid yn unig yn llenwi cefnforoedd a mannau gwyllt y byd, ond hefyd yn cyrraedd ein cyrff drwy'r aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Ac yn awr, mae astudiaeth newydd wedi dangos bod microblastigion — gronnynau plastig bach sy'n llai na 5 mm ond yn fwy nag 1 micron — hyd yn oed yn bresennol y tu	Bydd cyflwyno ein cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy leihau'n syth faint o eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel, ac effaith gadarnhaol hirdymor lleihau faint o blastig sydd yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn lleihau'r effaith negyddol y mae taflu sbwriel, llygredd plastig a newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar ein hamgylchedd a'n

		mewn i frychau dynol, sy'n peri risg bosibl i iechyd a datblygiad y ffetws.	hiechyd a'n lles a bydd yn darparu'r gofynion iechyd mwyaf sylfaenol: aer glân a dŵr diogel.
<b>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</b>	Efallai y bydd effaith negyddol		
<b>Crefydd, cred a diffyg cred</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol.		Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.
<b>Rhyw/Rhywedd</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol.		Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd,</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol		Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn

<b>Hoyw a Deurywiol)</b>	neu negyddol penodol.		effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol.		Byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynigion ac yn aros yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.

<b>Aelwydydd incwm isel</b>	<b><u>Effaith negyddol</u></b> Mae byw gyda rhywun anabl yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl oed gweithio.	Mae'r adroddiad <a href="#">Tlodi Incwm Cymharol: Ebrill 2019 i Mawrth 2020</a> yn ymwneud â thlodi incwm cymharol yng Nghymru. Mae byw gyda rhywun anabl yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl oed gweithio.  Mae'r adroddiad wedi nodi bod oedolion neu blant sy'n byw ar aelwyd gyda rhywun anabl eisoes dan anfantais ariannol.	Mae sicrhau bod gwellt plastig rhad yn dal ar gael i'r rheini sy'n dibynnu arnynt yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.
-----------------------------	---	---	---

Ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? (Edrychwch ar bwynt 1.4 y Canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth am *Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig*).

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?
Hawliau Dynol	Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol	Mae'r cynigion hyn yn cynnwys eithriadau i sicrhau nad yw ein gwaharddiadau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r erthyglau yn y Ddeddf Hawliau Dynol.	<p>Cyhoeddir canllawiau i gefnogi'r gwaith o roi'r cynigion ar waith. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd.</p> <p>Bydd yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael i bob dinesydd mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb.</p>

### **Hawliau Dinasyddion yr UE/Ardal Economaidd Ewrop a'r Swistir**

Nid oes unrhyw effaith wedi'i nodi gan fod Cyfarwydddeb debyg gan yr UE wedi cael ei chynnig/gweithredu yng ngwledydd yr UE27. Ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trin Dinasyddion y Swistir/UE yn wahanol i drigolion y DU.